# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 15FED HYDREF, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**(am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni)**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679556**

**rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

| | |
|---|---|
| Anne Lloyd Jones | Aelod Lleol Gorllewin Tywyn |
| Robert Dewi Owen | Aelod Lleol Aberdyfi |
| John Pughe | Aelod Lleol Morfa Tywyn |

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Freddie Collier | RNLI Aberdyfi |
| David Williams | Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi |
| Huw Evans | Aelod o Gymdeithas Pysgodfeydd Bae Ceredigion |
| Nigel Willis | Aelod o Glwb Cychod Aberdyfi |
| Desmond George | Aelod o Glwb Hwylio Dyfi |
| Al Crisp | Outward Bound Trust Wales |
| Guy Shaw | Clwb Rhwyfo Aberdyfi |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |
| Gwilym Jones | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog |
| Stephen Tudor | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |

# RHAGLEN

## 1. ETHOL CADEIRYDD

Ethol Cadeirydd ar gyfer 2024/25.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2024/25.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 5. COFNODION 4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2024 fel rhai cywir.

## 6. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR 8 - 18

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau.

## 7. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi ar 18 Mawrth 2025.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI, 12 MAWRTH 2024

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr Gwynedd:** Y Cynghorydd Robert Dewi Owen (Cadeirydd).
Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones.

**Aelodau Cyfetholedig:** Freddie Collier (RNLI Aberdyfi), David Williams (Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi), Desmond George (Aelod o Glwb Hwylio Dyfi), Al Crisp (Outward Bound Trust Wales), Guy Shaw (Clwb Rhwyfo Aberdyfi), Cynghorydd Robert Tyrrell (Cyngor Cymuned Aberdyfi) a Nigel Willis (Aelod o Glwb Cychod Aberdyfi).

**Sylwedyddion:** Y Cynghorydd Nia Wyn Jeffreys (Aelod Cabinet Datblygu'r Economi) a'r Cynghorydd Gwilym Jones (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog).

**Swyddogion yn bresennol:** Bryn Pritchard-Jones (Rheolwr Gwasanaeth Morwrol), Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau) William Arthur Stockford (Harbwrfeistr Aberdyfi) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Llŷr Beaumont Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Economi a Chymuned).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r cyfarfod hwn, a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2023, fel rhai cywir.

## 5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

Cyflwynwyd yr adroddiadau gan y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol a'r Uwch Swyddog Harbyrau. Tynnwyd sylw at y prif bwyntiau canlynol:

Sicrhawyd bod yr Harbwrfeistr a'i gymhorthydd yn cynnal arolwg o afon Dyfi cyn cyfnod prysur y Pasg er mwyn penderfynu ar y lleoliadau mwyaf addas i osod angorfeydd yr harbwr.

Cadarnhawyd y disgwyli i gwsmeriaid sy'n dymuno cael angorfa yn yr harbwr, neu gofrestru eu cychod dŵr ar gyfer y tymor sydd i ddod, gwblhau'r ffurflen ar-lein yn brydlon drwy wefan Cyngor Gwynedd. Eglurwyd bydd cwsmeriaid angorfeydd angen cysylltu gyda'r Harbwrfeistr er mwyn cadarnhau eu lleoliad angori yn yr harbwr.

Pwysleisiwyd bod Côd Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn parhau i gael ei ddilyn yn drylwyr er mwyn gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn yr amgylchedd morol porthladdoedd.

Diolchwyd i'r Harbwrfeistr Cynorthwyol, Mr Oliver Simmons am ei waith ymrwymedig yn yr harbwr. Nodwyd ei fod bellach wedi gadael ei swydd er mwyn sefydlu cwmni newydd. Mynegwyd dymuniadau gorau iddo a'r cwmni i'r dyfodol. Eglurwyd bod ymgeiswyr yn cael eu cyfweld ar gyfer llenwi'r swydd wag ar hyn o bryd a gobeithir bydd unigolyn cymwysedig yn cychwyn yn y rôl ar ddechrau tymor prysur yr haf.

Ymhelaethwyd bod swydd barhaol newydd wedi ei hysbysebu i gynorthwyo'r Harbwrfeistr a'i gymhorthydd gyda'u gwaith. Esboniwyd mai teitl y swydd yw Swyddog Traethau Meirionnydd ac mae wedi ei leoli yn harbwr Abermaw i weithio ar hyd traethau'r arfordir rhwng Abermaw ac Aberdyfi. Nodwyd y gobeithir bydd y swyddog yn cychwyn yn y swydd cyn cyfnod y Pasg. Cadarnhawyd bod y penodiad yma yn ychwanegol i'r staff traethau tymhorol sy'n cael eu penodi i weithio ar draethau Aberdyfi a Thywyn erbyn cyfnod yr haf yn flynyddol. Diweddarwyd yr Aelodau y gobeithir bydd yr aelodau staff tymhorol yn cychwyn gweithio o ddiwedd mis Mai ymlaen.

Cydnabuwyd nad oes diweddariad i'w rannu ar ddangosyddion perfformiad gan nad oes fawr newid wedi bod dros fisoedd y gaeaf . Cadarnhawyd bydd y wybodaethyn cael ei gynnwys yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Tywyswyd yr Aelodau drwy berfformiad ariannol yr harbwr ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol, yn dilyn adolygiad mis Tachwedd 2023. Tynnwyd sylw at nifer o bwyntiau o fewn y penawdau isod:

- **Gweithwyr** – Eglurwyd y rhagwelir tanwariant o £7,963 yn y maes yma oherwydd ymddiswyddiad Mr Simmons.
- **Eiddo** – nodwyd fod gwariant wedi cael ei wneud yn y maes yma yn unol â'r gyllideb a ddyrannwyd. Esboniwyd ei fod yn cwmpasu nifer o ddyletswyddau megis cynnal a chadw tiroedd yn ogystal â meinciau. Eglurwyd hefyd ei fod yn cynnwys ad-daliad am rai taliadau megis meinciau coffaol.
- **Trafnidiaeth** - Adroddwyd bod y pennawd hwn yn manylu ar danwydd i ddefnyddio cwch yr harbwr ac nid yw costau cynnal a chadw wedi cael ei gynnwys yn y ffigyrau. Cadarnhawyd yr amcangyfrifwyd tanwariant o £427 oherwydd nid yw'r tywydd wedi galluogi swyddogion i ddefnyddio'r cwch mor aml ag gobeithiwyd.
- **Gwasanaethau a Chyflenwadau** - Proffwydwyd bydd tanwariant o oddeutu £7,000 o fewn y maes hwn oherwydd costau dydd i ddydd a chontractwyr ar hyd y flwyddyn. Ymhelaethwyd bod hyn yn cynnwys nifer o gostau megis buddsoddiad mewn angorfeydd, goleuo a chadwyni. Cydnabuwyd bod prisiau wedi bod ar gynnydd dros y flwyddyn gan achosi gorwariant.

Adroddwyd y rhagwelir tanwariant o £1,314 yng nghyfanswm gwariant yr harbwr yn dilyn yr ystyriaethau uchod, o'i gymharu â'r gyllideb. Cadarnhawyd bod hyn yn sefyllfa gadarnhaol i'r harbwr. Tynnwyd sylw y rhagwelir incwm uwch i'r harbwr ar gyfer y flwyddyn hon oherwydd bod ei ffioedd i gwsmeriaid wedi cynyddu, yn ogystal â chodi ffioedd am wasanaethau ychwanegol megis parcio trelars. Pwysleisiwyd bod cynnydd yn y niferoedd sydd wedi cofrestru i ddefnyddio'r angorfeydd.

Cadarnhawyd y rhagwelir bydd yr harbwr yn tanwario £5,010 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, o'i gymharu â'r gyllideb ar gyfer 2023/24. Cydnabuwyd bod modd i hyn newid cyn diwedd y flwyddyn ariannol ond mynegwyd balchder bod yr harbwr yn tanwario ar hyn o bryd.

Adroddwyd bod newidiadau i ffioedd a thaliadau ar gyfer y flwyddyn 2024/25. Cadarnhawyd bod y newidiadau hyn eisoes wedi cael eu cyflwyno i'r Aelod Cabinet a'u bod nhw wedi cael eu cymeradwyo. Eglurwyd bod y newidiadau hyn wedi cael eu cyflwyno oherwydd bod targedau incwm yr harbyrau ar draws y sir wedi cynyddu ac felly mae'r costau hyn yn ddull i gyrraedd y targedau hynny yn enwedig o ystyried bod y tywydd yn effeithio ar allu'r harbwr i ddenu defnyddwyr i wasanaethau. Atgoffwyd yr aelodau bod modd i gwsmeriaid dalu am y gwasanaethau ar lein bellach. Tynnwyd sylw at y newidiadau canlynol:

- Cadarnhawyd ni fydd cynnydd yn y ffi lansio eleni. Esboniwyd bod ffi'r gwasanaeth hwn wedi cynyddu o £10 i £22 yn 2020 ac felly ni fydd yn cynyddu eto eleni.
- Eglurwyd bod ffi cofrestru yn cynyddu o £60 i £70 (cynnydd o 17%).
- Nodwyd bod cynnydd o 6% i ffi pecyn lawnsio blynyddol a chofrestru, gan godi'r ffi o £170 i £180. Adroddwyd bod y newid hwn wedi ei wneud oherwydd bod mwy o gwsmeriaid yn dewis talu am y gwasanaethau yn y dull yma yn hytrach na ffioedd dyddiol, ac mae'n haws i'w reoli.
- Esboniwyd bod ffi lansio i fadau llai na 10hp yn codi o £35 i £40
- Adroddwyd bod ffi o £40 wedi ei nodi ar gyfer cychod hwylio mewn amrywiol lleoliadau ar draws y sir. Cydnabuwyd nad yw'r ffi hwn yn berthnasol ar gyfer harbwr Aberdyfi.

Diolchwyd i'r Harbwrfeistr a'r holl swyddogion am eu gwaith trylwyr dros y misoedd diwethaf. Derbyniwyd cyflwyniad gan yr Harbwrfeistr ble tynnwyd sylw at y prif bwyntiau canlynol:

Atgoffwyd yr aelodau bod dau Hysbysiad Lleol i Forwyr yn parhau mewn grym ar hyn o bryd oherwydd problem gyda'r cymhorthion  mordwyo neu eu bod wedi symud, ond gobeithir y byddent wedi eu datrys erbyn y Pasg. Eglurwyd bod manylion am Hysbysiadau Lleol i Fforwyr ar wefan Cyngor Gwynedd a phwysleisiwyd pwysigrwydd cysylltu gyda swyddfa'r harbwr ar gyfer y wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelwch mordwyo.

Adroddwyd bod yr harbwr wedi buddsoddi mewn 'drôn' er mwyn gallu edrych ar fanylion a nodweddionpenodol o'r awyr, megis archwilio cymhorthion  mordwyo heb orfod lansio cwch yr harbwr. Tynnwyd sylw y byddai hefyd yn ddefnyddiol petai unrhyw un yn mynd ar goll er mwyn helpu i ddod o hyd iddynt. Yn anffodus, cydnabuwyd nad oes modd rhannu'r hyn a welir ar y 'drôn' ar y we oherwydd ni fyddai modd dibynnu ar y wybodaeth gan y byddai wedi dyddio. Nodwyd hefyd byddai hyn yn codi trafferthion gyda rheoliadau.

Nodwyd bod cwch patrôl 'Powercat' yr harbwr wedi derbyn gwaith cynnal a chadw yn ddiweddar i baratoi ar gyfer y tymor prysur. Esboniwyd fel rhan o reoliadau codio cychod Asiantaeth Gwylwyr y Glannau, bod y cwch wedi derbyn archwiliad gan Syrfëwr Morol cymeradwy ym mis Chwefror. Cadarnhawyd bod y cwch wedi pasio'r archwiliad hwn a bod y dystysgrif ar y ffordd. Adroddwyd bydd y cwch yn dychwelyd i wneud dyletswyddau gweithredol wedi iddi gael ei atgyweirio gan beiriannydd morol lleol.

Cadarnhawyd bod swyddogion yn parhau i gydweithio gyda'r awdurdodau yn dilyn damwain ddifrifol  yn yr harbwr haf diwethaf. Anogwyd pawb i barhau i gydweithio gyda'r awdurdodau petai'r angen yn codi. Cydymdeimlwyd gyda phawb oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad.

Nodwyd bod swyddfa'r harbwr wedi bod yn delio gyda nifer o ymholiadau a chwynion am sbwriel yn ddiweddar. Diolchwyd i bawb am helpu i glirio sbwriel sy'n golchi i'r lan ar y blaendraeth lleol. Er hyn, nodwyd y dylid rhoi gwybod i swyddfa'r harbwr am eitemau mawr

a swmpus neu eitemau sy'n cael eu hystyried yn amheus, peryglus, cyrydiol neu wenwynig ar unwaith, er mwyn trefnu i'w gwaredu yn ddiogel. Pwysleisiwyd ei fod yn bwysig i dynnu sylw swyddfa'r harbwr am unrhyw wastraff sydd wedi cael ei gasglu a'i adael er mwyn sicrhau bod trefniadau i'w casglu yn cael ei wneud mor fuan â phosibl. Pwysleisiwyd bod y Cyngor yn casglu gwastraff am ddim os ydynt ger y biniau sbwriel a bod swyddogion yn gallu eu cyrraedd yn hawdd.

Ystyriwyd darparu pecynnau codi sbwriel yn swyddfa'r harbwrfeistr, fel bod modd i bobl eu defnyddio, ond nodwyd nad oedd y rhain yn cael eu dychwelyd pan fu i'r swyddfa dreialu hyn yn y gorffennol. Nodwyd efallai byddai system o'r fath yn gweithio petai'n cael ei ailgyflwyno, os bydd angen talu am y nwyddau a bod defnyddiwyd yn derbyn ad-daliad wrth eu dychwelyd.

Edrychwyd ymlaen at dymor prysur i'r harbwr gan dynnu sylw at nifer o ddigwyddiadau cyffrous sydd ar y gweill megis Pencampwriaethau Arfordirol Rhwyfo Cymru 2024, Regata Flynyddol Clwb Rhwyfo Aberdyfi a digwyddiadau WeSwimRun.

Diolchwyd i bawb am eu gwaith dros y misoedd diwethaf ac am gydweithio mor effeithiol gyda swyddfa'r harbwr.

**PENDERFYNWYD**

**Nodi a derbyn yr adroddiadau.**

**6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**Cadarnhawyd bod y cyfarfod nesaf ar y 15fed Hydref 2024.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30yb a daeth i ben am 11:45yb.

________________________________________

(Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi** |
| **DYDDIAD** | **15 Hydref 2024** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr** |
| **AWDUR** | **Uwch Swyddog Harbyrau** |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Aberdyfi.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad cryno i sylw'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr ar gyfer y cyfnod o fis Mawrth 2024 i Hydref 2024, er mwyn derbyn adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

1.3 Sefydlwyd Pwyllgorau Harbwr Abermaw, Aberdyfi a Phwllheli dan adran 102(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972. Mae Pwyllgor Harbwr Porthmadog yn Bwyllgor Harbwr statudol, a sefydlwyd yn unol ag adran 6(2) (a-j) Gorchymyn Addasu Harbwr Porthmadog, 1998.

## 2. Angorfeydd Aberdyfi a Chofrestru Cychod

2.1 Mae 81 o gychod wedi bod ar angorfeydd blynyddol yn harbwr Aberdyfi yn 2024. Mae hyn yn cymharu â 73 o gychod ar angorfeydd yn 2023.

2.2 Mae cynnydd wedi bod yn nifer y cwsmeriaid sy'n dymuno cael angorfa yn harbwr Aberdyfi. Y gobaith yw y bydd y duedd hon yn parhau yn 2025.

2.3 Mae'r rhan fwyaf o'r cyhoedd sy'n dymuno cofrestru eu badau dŵr pŵer i'w defnyddio ar hyd arfordir Gwynedd bellach yn gwneud hynny ar-lein, drwy wefan Cyngor Gwynedd. Y tymor hwn, fe gofrestrodd 1013 o gychod pŵer a 1044 o fadau dŵr personol. Yn ychwanegol i'r ffigyrau hyn, cofrestrwyd 84 cwch gydag injan o dan 10 hp hefyd, sy'n rhoi cyfanswm o 2141 o gofrestriadau ar gyfer y tymor.

2.4 Mae'r nifer hwn o gofrestriadau cychod yn llai nag y llynedd pan gofrestrwyd cyfanswm o 2509 o fadau dŵr. Mae'n ddigon posibl fod y tywydd byrhoedlog a welsom eleni, wedi cyfrannu at y gostyngiad yn nifer y cofrestriadau cychod y tymor hwn.

## 3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd

3.1. Mae’r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd morol porthladdoedd. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn cynrychioli arfer dda a gydnabyddir gan ystod eang o randdeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol.

3.2 Mae'r Gwasanaeth yn adolygu'r Cod Diogelwch Morol yn rheolaidd ar gyfer yr harbyrau dan ei awdurdodaeth er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio'n llawn â gofynion presennol y Cod. Fel rhan o'r broses adolygu, mae'n angenrheidiol derbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei

gynnwys, gan gyfeirio'n benodol at weithgarwch yr harbwr, cymhorthion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a'r gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Aberdyfi.

**4. Materion Staffio**

4.1 Mae'r Gwasanaeth yn falch o gyhoeddi bod Mr Thomas Walton o Dre'r-ddol, ger Machynlleth, a ymunodd â'r gwasanaeth ar 8 Ebrill, wedi'i benodi fel Harbwrfeistr Cynorthwyol. Dymuna'r Gwasanaeth yn dda iddo yn ei yrfa newydd, yn gweithio yn yr harbwr gyda Mr William Stockford, yr Harbwrfeistr.

4.2 Yn ystod yr haf prysur a gawsom, mae staff yr harbwr hefyd wedi cynorthwyo ac wedi gweithio gyda staff yn Nhywyn ac Abermaw. Yn yr un modd, mae'r Gwasanaeth hefyd wedi gallu galw ar staff a leolir yn harbyrau Abermaw a Phorthmadog i'w cynorthwyo gydag unrhyw waith yn harbwr Aberdyfi.

4.2.1 Mae'r Gwasanaeth yn werthfawrogol iawn o'r gwaith a wnaed gan y wardeiniaid traeth tymhorol fu'n gweithio yn Aberdyfi a Thywyn drwy gydol yr haf prysur.

**5. Materion Ariannol**

5.1 Bydd y Rheolwr Morwrol yn darparu crynodeb bras o gyllideb yr harbwr a'r sefyllfa ariannol gyfredol hyd at ddiwedd y chwarter.

5.2 Yn ystod y cyfnod hwn bu'n rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr isod;

- Cynnal a chadw cymhorthion mordwyo a goleufeydd.
- Prynu a chynnal a chadw offer a chyfarpar yr harbwr.
- Archwilio a chynnal a chadw angorfeydd ymwelwyr y Cyngor.
- Cynnal a chadw a gweithredu cwch patrôl Powercat yr Harbwr, gan gynnwys buddsoddi i gynnal a chadw'r cwch er mwyn cydymffurfio â gofynion Cod Ymarfer yr Awdurdod Morwrol a Gwylwyr y Glannau.
- Cynnal a chadw tiroedd a meinciau

5.3 **Ffioedd a Thaliadau 2025/26**

O ran y darpar ffioedd a thaliadau ar gyfer Harbwr Aberdyfi ynghyd â ffioedd lansio Cychod Pŵer a Badau Dwr Personol ar gyfer tymor 2025/2026, ar achlysuron blaenorol mae'r Gwasanaeth wedi addasu ffioedd yn unol â'r gyfradd chwyddiant gyffredinol ar y pryd. Fodd bynnag, hyd yma, ni wnaed unrhyw benderfyniad ynghylch lefel y ffioedd ar gyfer y tymor nesaf.

**6. Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Bydd Harbwrfeistr Aberdyfi yn rhoi crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Mawrth 2024 a Hydref 2024, gan gynnwys materion cynnal a chadw. Mae copi o'i adroddiad ynghlwm.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi** |
| **DYDDIAD** | **15th Hydref 2024** |
| **TEITL** | **Adroddiad yr Harbwrfeistr** |
| **AWDUR** | **W.A. Stockford Harbwrfeistr Aberdyfi** |

**H 1 Materion Mordwyo**

1.1 Mae llwybr y brif sianel fordwyo i harbwr Aberdyfi wedi parhau i gael ei fonitro drwy dymor yr haf. Mae natur ffisegol yr afon ac ardal yr harbwr yn parhau i newid.

1.2 Mae newid sylweddol i draethell i'r de o swyddfa'r harbwr wedi peri i rai angorfeydd sychu. Roedd angen adleoli dau gwch i angorfeydd eraill tua diwedd y tymor yn sgil hyn. Bydd y gwasanaeth yn cynnal archwiliadau ac arolygon pellach yn ystod misoedd y gaeaf.

1.3 Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw Hysbysiad Lleol i Forwyr yn weithredol yn Harbwr Aberdyfi.

1.4 Disgwylir ymweliad gan archwiliwr o Dŷ'r Drindod, Awdurdod Goleudai yr ardal, yn ystod mis Hydref, i gynnal archwiliad ar gymorthyddion mordwyo o fewn terfynau'r harbwr. Bydd canlyniad yr archwiliad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.

1.5 Erbyn hyn, mae modd gweld pob Hysbysiad cyfredol i Forwyr ar gyfer y sir ar dudalen Morol gwefan Cyngor Gwynedd. Hysbysiadau Lleol i Forwyr. https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Residents/Leisure-parks-and-events/Maritime/Local-Notices-to-Mariners.aspx

1.6 Dymuna'r Gwasanaeth bwysleisio pwysigrwydd cysylltu â swyddfa'r harbwr yn Aberdyfi i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelwch mordwyo ac adroddiadau tywydd.

**H 2 Materion Gweithredol**

2.1 Mae diddordeb positif wedi bod mewn ymholiadau angorfeydd y tymor hwn gan arwain at ddefnyddio angorfeydd newydd sydd wedi'u gosod yn nyfroedd yr harbwr. Mae dod o hyd i leoliadau addas i osod angorfeydd yn parhau'n her oherwydd maint y tywod sy'n symud o fewn yr harbwr.

2.2 Mae'r cynnydd yn y tywod sy'n casglu yn parhau i lesteirio defnydd y lithrfa sydd gyferbyn â Gorsaf y Bad Achub ac eiddo Clwb Hwylio Dyfi. Gyda lefel y prif draeth fel y mae ar hyn o bryd, mae tynnu tywod o'r llithrfa yn parhau i fod yn broblem barhaus.

2.2.1 Mae'r Gwasanaeth yn gwerthfawrogi'n fawr ymdrechion rhanddeiliaid lleol i ddod o hyd i ddatrysiad i gael gwared ar dywod o'r llithrfa. Ar ôl gwahanol dreialon, gobeithir

y gellir dod o hyd i ddatrysiad wrth brynu offer i olchi'r tywod oddi yna gyda chymorth y trai.

2.3 Bu staff Traeth Aberdyfi yn hollbwysig wrth drefnu galwad i bobl a oedd mewn trafferth yn Ynyslas ar ochr ddeheuol yr aber gan arwain at achub dau fywyd. Fe'u cymeradwywyd am eu gwyliadwriaeth trwy gydol y tymor.

2.3.1 Oherwydd y rhagolygon tywydd cyfnewidiol a gafwyd ar gyfer y rhan fwyaf o'r tymor, gwelodd y gwasanaeth fod yna ddyddiau prysur iawn pan fyddai nifer yr ymwelwyr yn cynyddu'n sylweddol. Roedd patrolau parhaus ar yr afon, y traeth a'r harbwr yn gymorth i gynnal tymor a aeth heibio heb fawr o ddigwyddiadau.

**H 3 Cynnal a Chadw**

3.1 Cyn i dymor yr haf ddechrau cynhaliwyd gwaith cynnal a chadw blynyddol ar injans ac offer cwch patrôl yr harbwr. Mae cyfraniad y cwch yn amhrisiadwy i'r gwaith y mae'n rhaid i staff yr harbwr ei gynnal.

3.2 Cyn cyfnod y gwanwyn, cafodd y cymorthyddion mordwyo yn y sianel fordwyo eu cynnal a chadw, gan gynnwys prynu dwy lantern newydd wedi'u gosod ar y Bwi Allanol a Bwi Bar Rhif 1. Gwerthfawrogir yn fawr y cymorth a dderbyniwyd gan gontractwr angorfeydd lleol wrth gyflawni'r gwaith angenrheidiol ar y bwis yn y sianel.

3.3 Wrth i gyfnod y gaeaf nesáu, bydd cychod sydd yn nyfroedd yr harbwr a'u hangorfeydd perthnasol yn cael eu tynnu o'r dŵr gyda chymorth contractwr angorfeydd.

3.4 Cronnwyd sawl diwrnod ymatebol yn sgil gwaith i waredu a chladdu carcasau ar y blaendraeth. Gofynna'r gwasanaeth i unrhyw adroddiadau am garcasau ar y blaendraeth gynnwys gwybodaeth fanwl gywir am eu lleoliad, megis, what 3 words neu Gyfeirnod Grid.

**H4 Materion Eraill**

4.1 **Swyddfa'r Harbwrfeistr**. O ganlyniad i ddirywiad strwythurol yn swyddfa'r Harbwrfeistr, mae swyddfa dros dro ar ffurf caban symudol wedi'i gosod ar flaen yr harbwr, i gynorthwyo gyda chyfleusterau llesiant staff. Bydd staff yr harbwr yn symud i'r swyddfa symudol cyn cyfnod y gaeaf, cyn gynted ag y bydd y gwaith gosodiadau technegol a'r dodrefnu wedi'i gwblhau.

4.1.1 Mae'r Gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth ag adran Ymgynghoriaeth Cyngor Gwynedd i gynllunio ac adeiladu strwythur swyddfa newydd ar safle'r adeilad presennol.

4.2 **Compownd yr harbwr.** Fel rhan o raglen waith, bydd staff morwrol yn tacluso compownd yr harbwr yn ystod cyfnod y gaeaf. Bydd hyn yn cynnwys cael gwared ar unrhyw eitemau nad oes eu hangen a thrin y llystyfiant ar y safle.

4.3 **Heddlu Gogledd Cymru.** Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi'n cynghori fod yr ymchwiliad i amgylchiadau'r digwyddiad ar yr afon ar 28 Mai y llynedd yn parhau. Mae'r ymchwiliad bellach wedi'i gyfeirio i Wasanaeth Erlyn y Goron.

**H5 Digwyddiadau**

**5.1** Roedd y digwyddiadau a ganlyn ymysg y rhai a gynhaliwyd yn yr harbwr yn ystod cyfnod yr haf;

- Pencampwriaeth Badau Rasio Arfordir Cymru a gynhaliwyd ar 15 Mehefin. Mynychwyd y digwyddiad, a gafodd ei gynnal yn Aberdyfi am y tro cyntaf, gan lawer o bobl a derbyniwyd adborth gwych ar ei ôl. Mae'r gwasanaeth yn edrych ymlaen i'r digwyddiad gael ei gynnal yn Aberdyfi eto yn y dyfodol.
- Rhwyfo Môr Cymru Aberdyfi, Regata Blynyddol y Gynghrair Unedig a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf. Dyma regata rhwyfo ddymunol a llwyddiannus arall wedi'i harwain gan Glwb Rhwyfo Aberdyfi.

- WeSwimRun. *Swim / Run and Beat the Tide* 4km


- Aquathlon 26km Dyfi a ras nofio 13km Dyfi. Wedi'i chynnal yn yr afon ac ar y mynyddoedd oddi amgylch.

5.2 Dymuna'r Gwasanaeth atgoffa trefnwyr digwyddiadau o'r angen i roi gwybod mewn da bryd am unrhyw ddigwyddiad arfaethedig i ni er mwyn iddynt dderbyn caniatâd.


5.2 Wrth ystyried caniatáu unrhyw ddigwyddiad, bydd y Gwasanaeth yn rhoi sylw dyladwy i'r wybodaeth a dderbyniwyd yn manylu ar yr amgylchiadau, o ran unrhyw gyfyngiadau, amodau i'w gosod neu derfynau sydd eu hangen i sicrhau diogelwch y cyhoedd a'r staff.

| HARBWR ABERDYFI | Perfformiad Ariannol am y cyfnod 1 Ebrill 2024 at 31 Mawrth 2025 - Adolygiad Awst 2024 | | |
|---|---|---|---|
| | CYLLIDEB 1/4/24 at 31/3/25 | GWARIANT A RHAGWELIR 1/4/24 at 31/3/25 | GOR (TAN) |
| Gweithwyr | 73,450 | 71,556 | (1,894) |
| Eiddo | 26,010 | 15,877 | (10,133) |
| Trafnidiaeth | 810 | 592 | (218) |
| Gwasanaethau a Cyflenwadau | 8,630 | 22,872 | 14,242 |
| Gwariant Un Tro - Ariannu o Cronfeydd yr Adran | | 7,294 | 7,294 |
| **Cyfanswm Gwariant** | 108,900 | 118,192 | 9,292 |
| Incwm | (43,510) | (54,677) | (11,167) |
| Cyfraniad o Cronfeydd Tuag at Wariant Un Tro | 0 | (7,294) | (7,294) |
| **Cyfanswm Net** | **65,390** | **56,220** | **(9,170)** |


# Dashfwrdd Rheoli Perfformiad
# Economi a Chymuned





Cynyddodd y nifer cwsmeriaid gyda chytundeb angori 6.5% yn ein harbyrau o'i gymharu ar flwyddyn flaenorol, sef cynnydd o 250 i 266. Mae'r wasgfa ariannol yn golygu fod nifer o gwsmeriaid wedi eu denu i Wynedd gan, yn gyffredinol, fod y gost yn is. Mae rhai cwsmeriaid hefyd wedi dychwelyd yn dilyn diwedd i gyfyngiadau Covid.  Mae trefn ceisio am angorfa ar lein yn weithredol ers Ebrill 2023. Mae nifer o gwsmeriaid cychod pŵer hefyd wedi penderfynu cael angorfa yn lle lansio'n ddyddiol, sydd wedi cyfrannu at gadw nifer angorfeydd yn weddol sefydlog. Rydym hefyd wedi llwyddo i ddenu nifer o gwsmeriaid newydd.




Roedd 86% o'r ymatebwyr o'r farn bod eu profiad o'r harbyrau yn 'Dda Iawn' (81%) neu'n 'Dda' (5%) sydd 23% yn uwch na'r ganran ar gyfer y cyfnod blaenorol. Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol am broffesiynoldeb ac agwedd ein swyddogion, gyda rhai yn datgan fod y swyddogion yn "wybodus" ac "wedi mynd allan o'u ffordd i helpu".




Ni chafodd unrhyw gymhorthion mordwyo eu difrodi neu'u colli yn ystod misoedd y gaeaf, er bod nifer ohonynt wedi gorfod cael eu hail-leoli wrth i sianeli mordwyo symud.




Roedd 76% o'r ymatebwyr o'r farn fod eu profiad o draethau Gwynedd yn 'Dda Iawn' (58%) neu'n Dda (18%), sydd 16% yn is na'r ganran am y cyfnod blaenorol. Roedd llawer o'r farn fod y traethau'n ddiogel a glân, fod staff yn gyfeillgar a chymwynasgar a bod trefniadau rheoli effeithiol ar waith. Roedd rhai yn meddwl fod baw ci, cŵn afreolus a biniau gorlawn yn broblem mewn rhai safleoedd.




| | | |
|---|---|---|
| Outer Buoy | Lat 52° 32.000'N | Long 004° 05.550'W |
| Bar Buoy No1 | Lat 52° 32.041'N | Long 004° 04.770'W |
| Bar Buoy No2 | Lat 52° 32.101'N | Long 004° 04.770'W |
| No3 South Spit | Lat 52° 32.172'N | Long 004° 04.440'W |
| No5 | Lat 52° 32.173'N | Long 004° 04.040'W |
| No7 | Lat 52° 32.252'N | Long 004° 03.391'W |
| YSM 4 Knots | Lat 52° 32.486'N | Long 004° 02.878'W |